

## **Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Cymuned Esclusham**

### **Cyflwyniad**

Mae Cyngor Cymuned Esclusham yn gwasanaethu wardiau Bersham, Rhostyllen, Pentre Bychan ac Aberoer yn Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae yna 15 aelod o'r Cyngor.

Rydym yn cydnabod fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym yn credu ei bod yn arfer busnes dda i gynnig gwasanaethau yn newis iaith ein cwsmeriaid. Rydym hefyd yn credu ei fod yn dangos parch tuag at ein gweithlu i annog a hwyluso eu dewis iaith yn y gweithle.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaol tuag at yr uchelgais hwn. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn datgan ein hymrwymadau presennol wrth ddefnyddio'r Gymraeg a hefyd, lle'n briodol, yn gosod targedau i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg.

Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymadau yn y polisi hwn mewn ffordd resymol - maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sydd wedi eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, a hefyd maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yr ydym yn medru eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

**Cyfeiriwch unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at:**

**Mr Bryn Jones, Clerc i'r Cyngor a Swyddog yn gyfrifol am y Cyllid**

Cyfeiriad: Neuadd y Plwyf, Allt y Ficerdy, Rhostyllen, Wrecsam LL14 4AR / Ffon: 01978 366491 / E-bost: [esclushamcommunitycouncil@yahoo.com](mailto:esclushamcommunitycouncil@yahoo.com)

## **Delwedd Gyhoeddus**

Nid oes gennym unrhyw arwyddion parhaol neu frand corfforaethol ar hyn o bryd.

Mae ein papur pennawd a chardiau busnes yn Saesneg yn unig, ond byddwn yn sicrhau bod unrhyw gardiau busnes newydd a phapurau cyfarchion yn gwbl ddwyieithog ac yn arddangos y bathodyn *Iaith Gwaith*.

## **Gwefan a Gwasanaethau Digidol**

Mae ein gwefan yn Saesneg yn unig. Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg ar ein gwefan ble mae'n rhesymol i ni wneud hynny. Bydd ein tudalen Cysylltu yn cynnwys gwahoddiad i gyfathrebu gyda'r Clerc yn Saesneg neu Gymraeg.

## **Hysbysebu a Marchnata**

Mae ein cyhoeddiadau print (newyddlenni) yn Saesneg yn unig. Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau print lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny. Wrth farchnata ar ran trydydd parti, rydym yn sicrhau ein bod gwastad yn dosbarthu a chynnig fersiynau yn y ddwy iaith gyda'i gilydd pryd maent ar gael.

## **Cyfathrebu**

### **Negeseuon wedi eu recordio a Chyhoeddiadau Sain**

Rydym wrthi'n datblygu sustem negeseuon newydd, a byddwn yn edrych i sicrhau bod pob cyhoeddiad sain newydd sydd wedi ei recordio yn gwbl ddwyieithog.

### **Olrhain Dewis Iaith**

Nid ydym yn cofnodi nac yn olrhain dewis iaith ein cysylltiadau busnes ar hyn o bryd.

### **Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb**

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth iaith Gymraeg ar unrhyw adeg, rydym yn sicrhau bod o leiaf un aelod o staff sy'n medru siarad Cymraeg ar gael ym mhob gweithle lle bydd cyswllt â'r cyhoedd.

Rydym yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn *Iaith Gwaith* pan fyddant wrth eu gwaith. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau wyneb yn wyneb cyfrwng Cymraeg trwy ddefnyddio cynllun *Iaith Gwaith*

### **Cyfathrebu dros y Ffôn**

Rydym yn ateb galwadau ffôn â chyfarchiad dwyieithog. Mae pob aelod o staff yn gallu delio ag ymholiad yn gyflawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

## **Gohebiaeth (Papur ac Electronig)**

Rydym wastad yn ysgrifennu at bobl yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith. Rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym wastad yn ateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbyniwyd yn Gymraeg neu pan fydd rhywun yn gofyn i ni wneud hynny.

### **Ffurflenni a Dogfennau Cyfrif**

Mae ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif yn Saesneg yn unig

### **Staff a'r Gweithle**

#### **Cofnodi a Datblygu Sgiliau Iaith ein Staff**

Rydym yn cadw cofnod anffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg rhai aelodau o staff, ond nid aelodau o'r Cyngor. Rydym yn rhannu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg pob aelod o staff o fewn y gweithle, er mwyn i ni fedru cyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg at yr unigolyn mwyaf priodol.

Rydym yn cydnabod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

#### **Cyfathrebu Mewnol**

Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod o staff a'n cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu cydweithwyr a'r cwsmeriaid.

### **Meddalwedd yn Gymraeg**

Rydym yn caniatáu i staff osod rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer unrhyw feddalwedd y maent yn ei ddefnyddio sydd â rhyngwyneb Cymraeg cydnabyddedig.

### **Arweiniad**

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn ein sefydliad. Fe fyddwn yn penodi un person o'r tîm uwch reoli i fod yn gyfrifol am weithredu, hybu ac adolygu'r polisi hwn.

### **Ymwybyddiaeth**

Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen. Bydd pob aelod o staff yn derbyn copi o'r polisi hwn ac arweiniad ar ei oblygiadau.

### **Adolygu**

Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn o leiaf pob dwy flynedd, neu ar unrhyw newidiadau i staff y Cyngor. Polisi wedi ei adolygu – Chwefror 2016.

## Ymwadiad

Defnyddiwyd templed Comisiynydd y Gymraeg i lunio'r polisi iaith hwn. Serch hynny, nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am arolygu safon ein darpariaeth yn Gymraeg a dylid cyfeirio pob ymholiad am weithrediad y polisi at y cyfeiriad a nodir ar y dudalen flaen.

**Llofnod:** .....

**Bryn Jones** [Clerk i'r Cyngor a Swyddog yn gyfrifol am y Cyllid]

**Dyddiad:**.....